**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

# Proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus




## 1 Y Cyd-destun Cyfreithiol/Beth yw'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus?

Yn y lle cyntaf, fel sydd wedi'i amlinellu yn Adran 31 o Ddeddf Plant 1989, dim ond os yw'n fodlon bod y plentyn dan sylw yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol y gall y Llys wneud Gorchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwylio. Gweler y diffiniad yma: Diogelu Cymru

Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (2014) yn nodi'r dyletswyddau cyfreithiol sydd gan awdurdodau lleol wrth feddwl am wneud cais i'r Llys i gychwyn Achos Gofal i ofyn am Orchymyn Gofal neu Orchymyn Goruchwylio, neu i'r Awdurdod Lleol ddarparu ar gyfer plentyn. Mae hyn yn aml yn cael ei ddisgrifio fel cychwyn Achos Gofal Cyfraith Gyhoeddus.

## 2 Pryd mae Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael ei gychwyn/ystyried?

Mae Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn nodi, ymhlith dyletswyddau eraill, bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod nhw'n nodi pryderon sydd ganddyn nhw am blentyn yn gynnar a, lle bo modd, yn darparu cymorth i'r teulu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Mae hyn yn cael ei alw'n waith cyn-achos ac yn aml dyma'r hyn sy'n cael ei gyfeirio ato pan fydd gweithwyr cymdeithasol yn siarad am Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

Fel arfer, pan fydd Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cael ei gychwyn, mae'r plentyn wedi bod yn destun Cynllun Amddiffyn Plentyn, ond ni chafodd digon o gynnydd ei wneud.

Pan fo ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r plentyn yn teimlo bod y risg o niwed i blentyn mor fawr, neu fod yr achos yn fater o frys, efallai y byddai penderfyniad yn cael ei wneud i gychwyn Achos Gofal, felly, ni fyddai'r gwaith cyn-achos yn digwydd.

## 3 Gwaith Cyn-achos

**Beth ddylai gwaith cyn-achos ei gynnwys?**
Pan ddaw penderfyniad y bydd gwaith cyn-achos gyda'r teulu yn digwydd, mae yna bethau penodol sydd angen digwydd yn dilyn dyddiad y penderfyniad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Llythyr Cyn-achos** – bydd y llythyr hwn yn cael ei anfon at y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr. Mae'n amlinellu'r prif bryderon neu'r pryderon 'sylfaenol' a'r cymorth sydd wedi'i ddarparu gan y Gwasanaethau i Blant hyd yn hyn. Mae gwahoddiad i'r rhieni fynychu cyfarfod cyn-achos a byddan nhw'n cael eu cynghori i geisio cyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn cyfraith teulu ac i gynnwys eu teulu ehangach ar gyfer diogelu a chymorth. Cliciwch yma am restr o gyfreithwyr

Bydd **cyfarfodydd** a **chynadleddau'r grŵp craidd amddiffyn plant** yn parhau drwy gydol proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus.

## 4 Beth sy'n digwydd yn ystod proses yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus?

**Cyfarfod Cyn-achos** – bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal o fewn **7** diwrnod gwaith i pryd mae'r rhieni/gofalwyr yn cael y llythyr. Diben y cyfarfod yw nodi a oes modd dod i gytundeb ynghylch yr hyn sydd angen digwydd i amddiffyn y plentyn/plant rhag niwed, fel bod modd osgoi achos llys.

Bydd y cyfarfod yn cynnwys rhieni a'u cynrychiolydd cyfreithiol, yn ogystal â'r Awdurdod Lleol a'u cynrychiolydd cyfreithiol. Bydd sylw'n cael ei dynnu at y pryderon diogelu, pa gymorth sy'n cael ei gynnig a beth sydd angen i'r rhiant/gofalwr ei wneud i leihau'r pryderon – weithiau mae'r rhain yn cael eu galw'n gamau gweithredu 'sylfaenol'. Mae'r camau gweithredu hyn bellach yn ffurfio'r camau gweithredu blaenoriaeth yn y Cynllun Amddiffyn Plentyn.

## 5 Rolau a chyfrifoldebau

- Cyfrifoldeb gweithwyr proffesiynol ar y cyd yw casglu tystiolaeth i ategu'r trothwy a all gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, nodiadau a chofnodion achos, adroddiadau, gohebiaeth a chronoleg. Mae'n ddull aml-asiantaeth/ar y cyd. Mae pob asiantaeth yn atebol i ganiatáu gwneud penderfyniadau aml-asiantaeth ar sail tystiolaeth.
- Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn asesu anghenion y plentyn/plant a'u rhiant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr, gall hyn gynnwys asesiad rhianta, neu gomisiynu asesiad seicolegol neu efallai brawf cyffuriau ac alcohol.
- Dylai cynrychiolwyr Iechyd, Addysg, y Swyddog Lles Addysg, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, sefydliadau'r trydydd sector ac ati barhau i fynychu cyfarfodydd grŵp craidd a sicrhau bod eu camau gweithredu cyfrifol yn cael eu cwblhau.
- Rhaid i bob asiantaeth sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr amserlenni sydd wedi'u cytuno arnyn nhw a pharhau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynadleddau Amddiffyn Plant, cyflwyno ffurflenni Dyletswydd i Roi Gwybod/Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd ac unrhyw ddatgeliadau y gall fod eu hangen.

## 6 Amserlenni

**Cyfnod o newid** – dyma'r amser i'r rhieni/gofalwyr wneud y newidiadau angenrheidiol sydd wedi'u cytuno arnyn nhw i leihau'r pryderon. Bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol a chaiff cynnydd ei fonitro, er enghraifft: cyfarfodydd a chynadleddau'r grŵp craidd amddiffyn plant, hefyd yn cynnwys asiantaethau'r trydydd sector.

**Adolygiad Cyn-achos** – Cyfarfod yw hwn sy'n cael ei gynnal o fewn 6 i 8 wythnos i'r cyfarfod cyn-achos. Diben y cyfarfod yw adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu sylfaenol. Os nad oes tystiolaeth o gynnydd yn cael ei wneud o fewn amserlen resymol, yna byddai'r Awdurdod Lleol yn ystyried y camau nesaf.

**Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** – yn para hyd at 16 wythnos ond mae modd ei ymestyn gyda chytundeb Rheoli Gwasanaeth os

## 7 Canlyniadau posibl

**Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn dod i ben gan fod cynnydd wedi cael ei wneud** – Os yw'r rhieni wedi cyflawni'r camau gweithredu 'sylfaenol' sydd eu hangen i leihau'r pryderon/risgiau, efallai y daw penderfyniad nad yw'r Awdurdod Lleol bellach yn ystyried achos gofal a daw'r gwaith cyn-achos hwn i ben.

**Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn parhau** – cyfnod pellach o newid/gwaith i'w gyflawni.

**Cychwyn achos gofal** – Os yw'r rhieni wedi gwneud cynnydd annigonol, gall yr Awdurdod Lleol gychwyn achos gofal.